**Ffilm Cymru Wales**
**Disgrifiad Swydd: Rheolwr Materion Cyfreithiol a Busnes**

Dyma'r pecyn gwybodaeth ar gyfer swydd:

**Rheolwr Materion Cyfreithiol a Busnes**

Mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei rhoi i'ch helpu gyda'ch cais. I gael rhagor o wybodaeth am Ffilm Cymru Wales, ewch i www.ffilmcymruwales.com

# Cynnwys


**Croeso ........ 2**
**Sut mae Gwneud Cais ........ 4**
Cael gafael ar gefnogaeth ........ 4
Rhannu Swydd a Gweithio'n Hyblyg ........ 5
Ar ôl i chi wneud cais ........ 5
**Hysbyseb Swydd ........ 6**
Crynodeb o'r Swydd ........ 6
**Disgrifiad Swydd ........ 7**
Prif Bwrpas y Swydd ........ 8
Dibenion y Swydd ........ 8
Prif Gyfrifoldebau ........ 9
Manyleb y person ........ 11

**Ffilm Cymru Wales**
**Disgrifiad Swydd: Rheolwr Materion Cyfreithiol a Busnes**

# Croeso

Diolch i chi am ddangos diddordeb yn swydd hon ar gyfer uwch reolwr. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â Ffilm Cymru Wales ar adeg gyffrous wrth i ni gefnogi'r ecosystem ffilmiau yng Nghymru ac ar gyfer Cymru.

Rydyn ni'n chwilio am rywun sydd â phrofiad a chymwysterau ym maes rheoli materion cyfreithiol a busnes, a fydd yn gallu gweithio ar draws y cwmni i gefnogi rheolwyr arbenigol yn ein hymgyrch i gefnogi'r sector ffilm.

Sefydlwyd Ffilm Cymru Wales yn 2006. Dyma'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilmiau Cymru, ac mae'n Gwmni Buddiannau Cymunedol. Ers 2006, mae'r sector cynhyrchu ffilmiau yng Nghymru wedi tyfu'n sylweddol ac mae'r heriau sy'n codi wrth arddangos, datblygu a chynhyrchu, y sgiliau a'r hyfforddiant, a'r arferion gwaith wedi newid yn sylweddol.

Mae modd darllen ein Cynllun Strategol 2018 -2024 yma. Rydyn ni yn y broses o gytuno ar y cynllun strategol drafft ar gyfer 2024-2030 bryd yn dilyn Adolygiad Buddsoddi diweddar Cyngor Celfyddydau Cymru. Bydd ein Rheolwr Materion Cyfreithiol a Busnes newydd yn helpu i gyflawni a rheoli'r cynlluniau uchelgeisiol hyn, gan gynnwys adolygu ac ystyried senarios amgen, lle bo angen.

Mae ein gwaith yn cysylltu'n agos â Rhaglen Llywodraeth Cymru, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, oherwydd cymysgedd creadigol, economaidd a diwylliannol ein sector, ac rydyn ni wedi ymrwymo i werthoedd gwaith teg.

Rydyn ni'n gynrychiolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru a BFI ers tro ac yn cael arian gan y Loteri Genedlaethol. Rydyn ni'n dyfarnu'r arian hwn (fel

grantiau a chyllid ecwiti) i bobl sy'n arddangos ac yn gwneud ffilmiau.  Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n rheoli cyllid Cymru Greadigol ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer ffilmiau nodwedd annibynnol gan gynnwys ein cynllun Sinema Cymru a lansiwyd yn ddiweddar i gefnogi ffilmiau nodwedd Cymraeg sydd â photensial i fod yn ffilmiau sgrin fawr, rhyngwladol, ar y cyd ag S4C.

Mae Ffilm Cymru Wales yn arloesi o ran ei fodelau cyllido a'i gydweithio. Er enghraifft, yn ddiweddar rydyn ni wedi codi arian drwy Media Cymru (Strength in Places UKRI) a Chronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU i gefnogi diwydiant sgrin wyrddach ac i adeiladu ar ein rhaglen waith Foot in the Door, gan chwalu'r rhwystrau economaidd-gymdeithasol rhag cael gyrfa ar y sgrin. Mae ein gwerthoedd yn golygu ein bod yn edrych tuag at effaith hirdymor ac yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i weithio gyda phartneriaid o bob rhan o gymdeithas Cymru sy'n rhannu ein hymrwymiad i sicrhau sector ffilm sy'n gynhwysol ac yn gynaliadwy i bawb.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais, ac mae croeso i chi ei gyflwyno naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.

***Matthew Daniel, Prif Swyddog Gweithredu.***

**Ffilm Cymru Wales**
**Disgrifiad Swydd: Rheolwr Materion Cyfreithiol a Busnes**

# Sut mae Gwneud Cais

Oni bai ein bod wedi cytuno ar fformat cais arall gyda chi, dylech anfon CV a llythyr eglurhaol dros e-bost at Hayley Lau yn Hayley@ffilmcymruwales.com gan amlinellu pryd rydych chi ar gael, yn ogystal â'ch profiad a'ch sgiliau yn erbyn y rhai a amlinellir yn y fanyleb isod.

Cyflwynwch eich cais erbyn **16:00 ar 2 Tachwedd 2023.**

Fel rhan o'ch cais, nodwch unrhyw ddyddiadau na fyddwch chi ar gael ar gyfer cyfweliad.

Nid yw Ffilm Cymru Wales wedi'i drwyddedu i noddi dogfennau VISA ac o'r herwydd, rhaid i chi fod â hawl barod i weithio yn y DU er mwyn gwneud cais am y swydd hon.

## Cael gafael ar gefnogaeth

Rydyn ni'n credu mewn sector sy'n gweithio i bawb ac rydyn ni'n frwd dros ehangu mynediad at y sector sgrin.

Byddwn yn cynnig cyfweliad yn awtomatig i bob ymgeisydd sy'n bodloni ein Meini Prawf Sylfaenol ar gyfer y rôl ac sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl, yn Bobl o'r Mwyafrif Byd-eang, yn Ddu, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig, neu' B/byddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl, neu'n niwroamrywiol.

Mae cymorth ar gael i ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion B/byddar, trwm eu clyw, anabl, niwroamrywiol a phobl sydd wedi colli eu golwg. Cysylltwch â ni i ddweud sut gallwn ni helpu. Er enghraifft, gallwn ni dalu am ddehonglydd Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer cyfarfod gyda ni cyn gwneud cais, darparu cymorth

ysgrifenedig i ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau eraill ar gyfer gwneud cais, fel ceisiadau ar fideo neu ddec sleidiau. Chi fydd yn ein harwain ni.

Cysylltwch â Hayley Lou ar **Hayley@ffilmcymruwales.com** i drafod eich gofynion cyn gwneud cais.

## Rhannu Swydd a Gweithio'n Hyblyg

Rydyn ni'n agored i gynigion rhannu swydd a gweithio'n hyblyg. Yn eich llythyr eglurhaol, rhowch fanylion eich cynnig i rannu swydd neu weithio'n hyblyg, os yw hynny'n berthnasol.

## Ar ôl i chi wneud cais

Byddwch yn cael cadarnhad bod eich cais wedi dod i law o fewn wythnos i'w gyflwyno, a byddwch yn cael dolen at ffurflen monitro amrywiaeth, sy'n ein helpu yn ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant. Mae opsiwn peidio â dweud ym mhob cwestiwn. I gael gwybodaeth am sut mae Ffilm Cymru Wales yn prosesu data ymgeiswyr, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd.

Byddwch yn clywed a ydych wedi cael eich rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad o fewn tair wythnos i ddyddiad cau'r cais.

**Ffilm Cymru Wales**
**Disgrifiad Swydd: Rheolwr Materion Cyfreithiol a Busnes**

# Hysbyseb Swydd

**Teitl:** Rheolwr Materion Cyfreithiol a Busnes
**Cyfnod:** Swydd lawn-amser, barhaol.
**Cyflog:** £48,600 - £54,000 y flwyddyn, ynghyd â phensiwn.

Rydyn ni'n gweithredu system gyflog 5 pwynt, a byddwn fel arfer yn penodi ar bwynt 1 y raddfa ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

## Crynodeb o'r Swydd

Darparu cyngor arbenigol ar faterion cyfreithiol a busnes i'r Prif Swyddog Gweithredu a'r Uwch Dîm Rheoli wrth gyflawni ein rôl fel noddwr ffilmiau byrion a ffilmiau nodwedd, arddangosfeydd ffilmiau, sgiliau a hyfforddiant a gweithgareddau amgylcheddol, yn unol â'n blaenoriaethau strategol.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau:** 16:00 ar 2 Tachwedd 2023

**Dyddiad Cychwyn**: hydref 2023/gaeaf 2024

Byddwn yn cynnig cyfweliad yn awtomatig i bob ymgeisydd sy'n bodloni ein Meini Prawf Sylfaenol ar gyfer y rôl ac sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl, yn Bobl o'r Mwyafrif Byd-eang, yn Ddu, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig, neu'n B/byddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl, neu'n niwroamrywiol.

Mae cymorth ar gael i ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion B/byddar, trwm eu clyw, anabl, niwroamrywiol a phobl sydd wedi colli eu golwg. Cysylltwch â hayley@ffilmcymruwales.com

**Ffilm Cymru Wales**
**Disgrifiad Swydd: Rheolwr Materion Cyfreithiol a Busnes**

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Swydd:** | **Rheolwr Materion Cyfreithiol a Busnes**<br>Mae hon yn swydd lawn amser, barhaol. |
| **Yn adrodd i'r:** | Prif Swyddog Gweithredu. |
| **Lleoliad:** | Yng Nghaerdydd mae'r brif swyddfa, a theithio o bryd i'w gilydd yn y DU. |
| **Cyflog:** | £48,600-£54,000 y flwyddyn, ynghyd â phensiwn. Rydyn ni'n gweithredu system gyflog 5 pwynt, a byddwn fel arfer yn penodi ar bwynt 1 y raddfa ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. |
| **Gwyliau blynyddol**: | Rydyn ni'n cynnig 28 diwrnod o wyliau blynyddol ynghyd â Gwyliau Banc. |
| **Sut mae gwneud cais:** | Oni bai ein bod wedi cytuno ar fformat cais arall gyda chi, dylech anfon CV a llythyr eglurhaol dros e-bost at hayley@ffilmcymruwales.com gan amlinellu pryd rydych chi ar gael yn ogystal â'ch profiad a'ch sgiliau yn erbyn y rhai a amlinellir yn y fanyleb hon. |

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** 16:00 ddydd Iau 2 Tachwedd 2023.

**Ffilm Cymru Wales**
**Disgrifiad Swydd: Rheolwr Materion Cyfreithiol a Busnes**

## Prif Bwrpas y Swydd

Darparu cyngor arbenigol ar faterion cyfreithiol a busnes i'r Prif Swyddog Gweithredu a'r Uwch Dîm Rheoli wrth gyflawni ein rôl fel noddwr ffilmiau byrion a ffilmiau nodwedd, arddangosfeydd ffilmiau, sgiliau a hyfforddiant a gweithgareddau amgylcheddol, yn unol â'n blaenoriaethau strategol.

Mae hyn yn cynnwys drafftio, negodi a chwblhau cytundebau cyfreithiol rydyn ni'n eu cyhoeddi i drydydd partïon neu'n cymryd rhan ynddynt gyda thrydydd partïon, ynghyd â dull ymarferol o fonitro perfformiad yn erbyn cytundebau ar y cyd â chydweithwyr gweithredol. Mae'r rôl hefyd yn cynnwys elfen o gyngor ad hoc ar reoli'r cwmni ar raddfa ehangach.

## Dibenion y Swydd

- Darparu cyngor a rheoli materion busnes Ffilm Cymru, gan arwain ar negodi, adolygu a drafftio contractau ar draws y sefydliad – gan gynnwys materion corfforaethol a pharatoi cytundebau cyllido ffilmiau gyda thrydydd partïon, a'r cytundebau ategol sy'n ymwneud â chyllid o'r fath i gynnwys cytundebau rhwng mwy nag un parti ar gyfer trefniadau diogelwch ac adennill. Bydd gwaith o'r fath hefyd yn gofyn am wybodaeth am gyfraith hawlfraint, i adolygu a negodi cytundebau cadwyn teitl a chontractau gwerthu a defnyddio/datblygu.
- Sicrhau ein bod yn gwybod am ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol a chyfredol ac yn cydymffurfio â nhw, fel cyfraith hawlfraint, diogelu data, rheoli cymorthdaliadau, a gofynion amgylcheddol, gan nodi'r angen am gyngor allanol pan fydd angen gwasanaethau arbenigol, a chysylltu â'r cyngor hwnnw.

**Ffilm Cymru Wales**
**Disgrifiad Swydd: Rheolwr Materion Cyfreithiol a Busnes**

- Datblygu a chynnal cysylltiadau o'r radd flaenaf gyda sefydliadau allanol, cyfreithwyr, cyllidwyr, asiantau gwerthu a dosbarthwyr.
- Cysylltu â chynhyrchwyr a chyfranogwyr a ariennir yn allanol (er enghraifft, arddangoswyr, darparwyr hyfforddiant), yn ôl yr angen, i gael y wybodaeth sydd ei hangen i weithredu a monitro perfformiad yn erbyn ein cytundeb cyfreithiol, a mynd ati'n effeithiol i gyfleu hyn ar draws y cwmni ac yn allanol i sicrhau bod ein prosesau gweithredu'n digwydd yn ddidrafferth, a datblygu amcanion ein cwmni i gefnogi'r sector.

## Prif Gyfrifoldebau

Cefnogi'r cwmni yng nghamau datblygu, contractio ac ôl-ofal cynyrchiadau (boed yn ffilmiau nodwedd, ffilmiau byrion neu gynnwys creadigol arall) sy'n cael eu cynnig, neu sy'n cael eu hystyried ar gyfer cyllid gan Ffilm Cymru Wales. Bydd hyn yn cynnwys:

- Ystyried a rhoi adborth ar unrhyw faterion neu bwyntiau trafod busnes posibl mewn perthynas â chamau datblygu, cynhyrchu a dosbarthu ffilmiau, a mynd ar drywydd y rhain yn unol â chamau gweithredu a gymeradwywyd;
- Rheoli'r trefniadau ariannol, telerau cytundeb a materion busnes cysylltiedig sydd rhwng y cwmni a'r cynhyrchydd, gan gynnwys adolygu a pharatoi dogfennau cau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Lythyrau o Ddiddordeb/Bwriad, Llythyrau Cynnig, Cytundebau Cyllid Cynhyrchu, Cytundebau Rhwng Partïon; Penawdau'r Telerau; Cytundebau Gwerthu/Dosbarthu; Cytundebau Casglu; bondiau cwblhau; ffioedd; llythyrau labordy/cyfleusterau ôl-gynhyrchu; ac adolygu cytundebau trydydd parti, gan gynnwys dogfennau cyd-arianwyr, llythyrau telerau ac amodau, cytundebau cast/criw; dogfennau cadwyn teitl ac yswiriant;

**Ffilm Cymru Wales**
**Disgrifiad Swydd: Rheolwr Materion Cyfreithiol a Busnes**

- Adolygu a chynghori ar drefniadau diogelwch a rheoli risg ymddiriedol a/neu risg i enw da, fel sy'n ofynnol gan Ffilm Cymru Wales, a chynnal diwydrwydd dyladwy priodol mewn perthynas â buddsoddiad Ffilm Cymru Wales yn y prosiectau a gefnogir gan y gronfa;
- Monitro ac adolygu'r holl elfennau masnachol sy'n codi ar ôl cau cyfnod ariannol, gan gynnwys telerau gwerthu a dosbarthu gydag asiantau gwerthu a dosbarthwyr, cwblhau cytundebau casglu, cytundebau cerddoriaeth ac unrhyw eiddo deallusol sy'n deillio o'r ffilmiau sy'n cael ei ddefnyddio'n ehangach;
- Cysylltu â'r Swyddog Cynhyrchu Gweithredol i sicrhau cydymffurfiad â rhwymedigaethau contract sylfaenol y sawl sy'n cael ei ddyfarnu, fel cadarnhau rhestrau cydnabod, gofynion hyfforddi a darparu.
- Cyfrannu at asesu ceisiadau am gyllid, i gefnogi'r Pennaeth Cynhyrchu, mewn perthynas â'r dasg arfaethedig o ariannu a datblygu ceisiadau, ac unrhyw feysydd risg posibl a ganfyddir i ddechrau.
- Cymryd rhan fel aelod o baneli sy'n gwneud penderfyniadau ar gyllido ar gais y Pennaeth Cynhyrchu, ar ddyfarniadau hyd at £49,999 neu fel y maent wedi'u hamrywio, fel arall, yn ein cytundebau â chyllidwyr.
- Cefnogi'r Uwch Dîm Rheoli ar draws y cwmni mewn perthynas â pharatoi, adolygu a diwygio cytundebau cyllido templed neu ddogfennau cyfreithiol neu faterion busnes cysylltiedig, yn unol â chyfarwyddyd y Prif Swyddog Gweithredu. Bod yn ymwybodol o newidiadau mewn arferion gorau a datblygiadau technolegol yn y sector ffilm i sicrhau bod syniadau ac arferion Ffilm Cymru Wales ar flaen y gad;
- Cyfrannu at rwymedigaethau adrodd, gan gynnwys cyfarfodydd bwrdd chwarterol ac adolygiadau diwedd blwyddyn;
- Cymryd rhan weithredol yng nghyfarfodydd Ffilm Cymru Wales, prosesau cynllunio, datblygu a digwyddiadau meithrin tîm;

**Ffilm Cymru Wales**
**Disgrifiad Swydd: Rheolwr Materion Cyfreithiol a Busnes**

- Gweithredu fel llysgennad ar ran Ffilm Cymru Wales a thalent o Gymru drwy gynrychioli'r Gronfa mewn cyfarfodydd, gwyliau a digwyddiadau, gan roi sylw penodol i gysylltiadau gwerthu a materion busnes;
- Cyflawni'r holl gyfrifoldebau mewn ffordd sy'n cefnogi gwerthoedd Ffilm Cymru Wales ac sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd, cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn Ffilm Cymru Wales a'r sector yn ehangach.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill a allai fod yn ofynnol yn rhesymol.

## Manyleb y person

**Meini Prawf Sylfaenol:**

- O leiaf 3 blynedd o brofiad fel cyfreithiwr cymwysedig gydag arbenigedd amlwg ym maes cyllid adloniant (ffilmiau ac eiddo deallusol cysylltiedig, teledu, gemau ac ati).
- Gallu a pharodrwydd i weithio mewn ffordd ymarferol, fel rhan o dîm bach ond ymroddedig, gan reoli eich dyddiadur a'ch gwaith gweinyddol eich hun.
- Cyfathrebwr rhagorol sy'n gallu cyfleu syniadau cymhleth yn glir i bobl nad ydynt yn gyfreithwyr – yn fewnol ar draws y sefydliad ac yn allanol gyda chynhyrchwyr, partneriaid ac eraill.
- Profiad amlwg a llwyddiannus o weithio mewn ffordd hyblyg. Gallu troi eich llaw at adolygu materion corfforaethol – fel iechyd a diogelwch, rheoliadau amgylcheddol a diogelu data, ochr yn ochr â drafftio, negodi a chwblhau cytundebau cyllid cynhyrchu manwl a chytundebau cyllido gyda thrydydd partïon, gan gynnwys ar draws arddangosfeydd ffilmiau a sgiliau / hyfforddiant.

- Negodwr pragmatig sy’n gallu diogelu buddiannau Ffilm Cymru Wales gan gydbwyso rôl cyllidwr cyhoeddus wrth gefnogi’r sector ehangach.

**Meini Prawf Dymunol**

- Profiad o weithio gyda’r sector cyhoeddus ac i’r sector hwnnw.
- Profiad o weithio mewn amgylchedd BBaCh
- Profiad o waith dogfennau nodwedd yn ogystal â ffilmiau naratif gydag actorion byw ac animeiddiadau
- Gallu siarad Cymraeg.